# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 06 Mehefin Cofnodion

CYNGOR CYMUNED Y BETWS

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar Ddydd Mercher yr 14eg o Fehefin 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, June Gunter, Loreen Lewis, Graham Vaughan, Annette Price, Peter Cowell a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Delyth Richards, Carwyn James, Keith Rees, E Audrey Jones a Heddlu Dyfed Powys.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dywedodd y Cynghorwr Menna Roberts wrth y Cynghorwyr nad oedd rhaid i’r Cyngor Sir John D Evans ddatgan diddordeb oherwydd nid yw’n ymglymedig i unrhyw benderfyniad Cyngor Cymuned Y Betws, ond os oes mater yn codi dylai ddatgan diddordeb. Atebodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod yn datgan diddordeb allan o gwrteisi. Hefyd dywedodd dylai’r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio i ddarllen fod rhaid i’r Cynghorwr Sir ddatgan buddiannau ariannol a rhai heb fod yn ariannol. Awgrymodd y Cyngorwr Peter Cowell ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Rheolau Sefydlog yn cael eu roi ar agenda mis nesaf.
PENDERFYNWYD: bod hyn yn cael ei ddodi ar Agenda mis nesaf.

1. I DDARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 10 fed O FAI 2006.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Arnallt James fod cofnodion cyfarfod y 10fed o Fai 2006 yn gywir ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Cynllun Llwybr Diogel i Ysgolion.
Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans wedi adrodd wrth y Cynghorwyr ei fod ef wedi gofyn i Bennaeth Ysgol Y Betws i gysylltu gydag e’ ynglyn â gwneud cynllun Llwybr Diogel i Ysgolion ym mis Awst.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.2 Llwybr Troed 68/11.
Darllenodd Y Clerc ymateb derbyniodd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â’r uchod. Adroddodd y Cynghorwr Peter Cowell fod Mr Carlsen o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi gofyn a all y cynghorwr Arnallt James nodi’r man dan sylw.
PENDERFYNWYD: bod y Cynghorwr Arnallt James yn cysylltu â Mr Carlsen o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.3 Cyngor Sir Caerfyrddin - Cysgod Bws.
Darllenodd Y Clerc ymateb derbyniodd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn dweud fod y Cyngor Sir wedi nodi ymateb Cyngor Cymuned Y Betws. Mae’r cysgodfa cyferbyn a’r Plough & Harrow wedi cael ei osod ar restr ailosod cysgodfeydd. Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod ef wedi dodi cais mewn i ailosod cysgodfa bws yn Nhreforis.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.4 Cyngor Sir Caerfyrddin - Tal Parcio.

Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans fod yna newidiad i'r tâl parcio yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r tâl yn Rhydaman yn cael ei leihau i 20c.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.5 Llifogydd ar Heol Maescware a Heol Y Cyrnol, Betws.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â'r uchod. Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi sylwi'r broblem llif ers bod y safle newydd wedi cael ei adeiladu. Roedd y Cynghorwyr wedi anghytuno'n gryf gyda'r ymateb yn y llythyr a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Williams a Mr Cresci o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.6 Parc Nant-Y-Felin, Betws.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Yn anffodus nid yw'r datbygydd wedi cofrestru yn unol â Chytundeb S104. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu mabwysiadu'r briffordd tan fod y cytundeb yn ei le.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.7 Ardal Chwarae Heol Y Felin.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin, a dywedodd nad yw'n bolisi gan y Cyngor i gasglu gwair wedi'i dorri o ardaloedd chwarae.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.8 Prydles - Parc Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod cyfarfod wedi cael ei drefnu gyda Menter Rhydaman, Adran y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin â is-bwyllgor y Prosiectau, ar 19eg o Fis Mehefin 2006.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.9 Rhodfa sy'n arwain o Heol Pentwyn i Glwb Nos Ty Coch .
Darllenodd Y Clerc ymateb derbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin, yn dweud fod y Cyngor Sir yn mynd i drefnu torri'r gordyfiant ar y llwybr troed.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.10 Awdurdod y Glo.
Adroddodd y Cynghorwr Peter Cowell fod Awdurdod y Glo wedi ymweld â Mynedfa drifft y Gloddfa. Mae Awdurdod y Glo o'r farn bod y mynediadau wedi'u gosod o dan sêl yn gywir. Roedd y Cynghorwr Peter Cowell wedi dangos lluniau i'r Cynghorwyr a dderbyniodd wrth Awdurdod y Glo, sy'n dangos y mynediadau cyn ac ar ôl iddynt gael eu gosod dan sêl. Nid oedd y Cynghorwr Sir John D Evans ynhyderus fod y mynediadau wedi cael eu gosod dan sêl yn iawn. Penderfynodd y Cynghorwyr gael copi o adroddiad Arolygiaeth y Pyllau Glo.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Arolygiaeth y Pyllau Glo i ofyn am gopi o'r adroddiad.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Un Llais Cymru.
Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr os oedd ganddynt ddiddordeb mynd i Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru i'w gynnal ym mis Hydref. Gofynnodd y Cynghorwr Graham Vaughan os gallant gael copi o'r agenda a'r pynciau trafodaeth. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Un Llais Cymru i ofyn am gopi o'r agenda am y cyfarfod blynyddol.

3.2 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol:
1. Un Llais Cymru - Eisteddfod 2006.
2. Un Llais Cymru - Pwyllgor Adran Caerfyrddin Agenda a Chofnodion.
3. Cyngor Iechyd Cymunedol Sir Caerfyrddin.

4. Neath Port Talbot County Borough Council -Ymholiad Cyhoeddus.
5. Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Trefniadau Etholiad yng Nghymru.
6. Awdurdod Canol a Gorllewin Cymru Tân ac Achub - Cynllun Drafft Lleihad Risg 2007/10.
7. Siarter 88 - Dirywiad Cymuned.
8. Menter Rhydaman - Cyrsiau Hyfforddi am ddim.
9. Cyngor Sir Caerfyrddin - Gwybodaeth am fywyd gwyllt.
10. Cyngor Sir Caerfyrddin - Iechyd a Gofal Cymdeithasol - rhoddwyd i'r Cynghorwr June Gunter.
11. Cyngor Sir Caerfyrddin - Datblygiad Gloddfa Drifft Betws.
12. Grwp Lleol o Gynghorau Rhydaman - Agenda a Chofnodion.
13. HOWLTA - rhoddwyd i'r Gynghorwr Arnallt James i'r Cynghorwr Carwyn James.
14. Cyfarfod Rhwydwaith Cymuned Rhydaman - rhoddwyd i'r Gynghorwr Menna Roberts.
15. Llythyr o ddiolch wrth S Thomas, Girlguiding Cymru.
16. Newyddion Cymunedol.
17. Awdurdod Heddlu Dyfed Powys - Cyfarfod Cyhoeddus.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned Y Betws wedi rhoi caniatâd i'r ceisiadau canlynol:-
E/13134 - Storfa Gwair a Pheiriannau, Ffarm Llwyndu, Betws, Rhydaman (3).
Nid oedd gan y Cynghorwyr unrhyw wrthwynebu tra bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio am resymau maethyddol yn unig.
E/13361 - Ty gwydr i gefn ty, 7 Parc Nant Y Felin, Betws, Rhydaman (6).

4.2 Mae Cyngor Cymuned Y Betws wedi gwrthwynebu y cais canlynol:-
E/13371 - Datblygydd Preswyl, tir gyferbyn â'r Plough & Harrow, Heol Betws, Betws (5).
Roedd y Cynghorwyr wedi gwrthwynebu'r cais hyn oherwydd bod yna ddigon o ddatblygwyr/Contractwyr yn gweithio ym Metws ar hyn o bryd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin yn gwrthwynebu'r cais hwn.

4.3 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r canlynol:-
E/12765 - Estyniad, Nythfa, Coopers Well, Garnswllt, Rhydaman (1).
E/12777 - Ardal Arddangosfa a Thy Gwydr, Profab 2000 Ltd, Betws (2).
E/12114 - Trawsnewidiad o ysgubor i dy, Llwyndu, Betws, Rhydaman (27/2005).
E/12425 - Byngalo a 3 ystafell wely, tir ger Fila Pencoed, Heol Maescware, Betws (29/2005).

4.4 Gohebiaeth derbyniwyd wrth yr Adran Gynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â Chais Cynllunio Rhif. E/09324, Datblygiad Gwaith Glo Betws.
Darllenodd Y Clerc gohebiaeth derbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Roedd y Cynghorwyr yn anhapus gyda'r sylwadau yn y llythyr ac nid oeddynt yn cytuno gyda nhw o gwbl.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ddiolch iddynt am ei llythyr, a nodi bod y Cynghorwyr yn deall taw cyfrifoldeb y Gweithredwr yw hyn ac yn gobeithio bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynd i bwysleisio hyn i'r Gweithredwr cyn bod unrhyw ddamweiniau yn digwydd oherwydd mae gwyliau ysgol yn agosáu.

5. CYFRIFON.
1. Cyflog a Lwfans y Clerc £816.00
2. Incwm Tacs y Clerc £177.78
CYFANSWM £993.78
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Roedd y Cynghorwr Peter Cowell wedi codi mater sef fod y Cynghorwyr wedi penderfynu yn y gorffennol nad oes rhodd yn cael ei roi i unigolion dim ond i Sefydliadau Rhoddir rhoddion i'r Sefydliadau mae'r unigolyn yn cynrychioli.

PENDERFYNWYD: fod y rhoddion yn y dyfodol yn cael ei roi i'r Sefydliadau.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Methu bod yn bresennol.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans y canlynol:-
1. Mynydd Y Betws - Cadarnhaodd fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynd i roi marciau heol newydd ar Fynydd Y Betws. Hefyd mae e' wedi gofyn a gall 'llygaid cathod' gael eu rhoi ar yr heol.
2. Golwg Y Mynydd - Cadarnhaodd fod adroddiad am yr arogl wedi cael ei anfon at y Swyddog Gorfodaeth ac nad oedd yna unrhyw dorgyfraith cynllunio.
3. Cysgodfa Bws - Adroddodd fod y cysgodfa gyferbyn a'r Plough and Harrow ar y rhaglen i gael ei wella. Mae'r cysgodfa ar Heol Waungron mewn cyflwr da ond mae eisiau'i lanhau.
4. Parc Nant Y Felin - Mae e' wedi gwneud cais i Adran y Briffordd ynglyn â''r arwyddion stryd. Mae rhaid i'r Datblygydd roi goleuadau ar y stryd. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cadarnhau ei fod yn mynd i gasglu sbwriel o'r safle.
5. Ysgol Gynradd Y Betws - Adroddodd ei fod yn anghytuno gyda chyfrif llefydd gornifer ysgolion. Mae eisiau fwy o blant fynychu Ysgol Y Betws.

8. 8. ADRODDIADAU.
8.1 Grwp Lleol o Gynghorau Rhydaman.
Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod Cyngor Llanedi yn mynd i gadeirio a chlercio i Grwp Gynghorau Lleol .Rhydaman am eleni. Nid oes yna unrhyw newyddion i'w adrodd ynglyn â'r Eisteddfod.
NODWYD: y pwynt uchod.

8.2 Un Llais Cymru.
Adroddodd Y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod Un Llais Cymru yn Llangadog. Adroddodd fod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin yn fywiog iawn.
NODWYD: y pwynt uchod.

8.3 Betws yn ei Blodau.
Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y gystadleuaeth Betws yn ei Blodau heb gael cefnogaeth eleni. Mae Ysgol Y Betws yn iawn oherwydd ei bod wedi anfon ei ffurflen mewn.
NODWYD: y pwynt uchod.

8.4 Cyfarfod Awdurdod Heddlu Dyfed Powys.
Adroddodd Y Cynghorwr Graham Vaughan ei fod wedi bod yn bresennol yng Nghyfarfod Awdurdod Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod y cyfarfod wedi trafod Cyfuniad yr Heddlu yng Nghymru. Dywedodd fydd Clerc Awdurdod yr Heddlu yn anfon cofnodion o'r cyfarfod at Glerc Gyngor Cymuned Y Betws.
NODWYD: y pwynt uchod.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Cadwyn y Cadeirydd.
Adroddodd y Cynghorwr Menna Roberts fod eisiau rhoi pedwar Cadeirydd/Cadeiryddes arall ar y Gadwyn oherwydd mae'r un diwethaf yn dweud 2002/2003. Adroddodd y Cynghorwr Annette Price bod y Cynghorwyr wedi cytuno archebu chwe phlac i roi ar y Gadwyn. Cytunodd y Cynghorwyr i archebu chwe phlac ac i gael pedwar ohonynt wedi'u harsgrifio
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn archebu chwe phlac arall ac yn danfon y Gadwyn i ffwrdd i gael eu harsgrifio.

9.2 Casgliad Sbwriel ar Heol Maescware, Betws.
Adroddodd y Cynghorwr Loreen Lewis nia yw ei sbwriel yn cael ei gasglu bob wythnos. Mae hyn yn digwydd i dai o Deras Wernddu i ben Mynydd Y Betws. Awgrymodd y Cynghorwr

Graham Vaughan fod llythyr yn cael ei anfon i Gyngor Sir Caerfyrddin i ddweud nad yw hyn yn dderbyniol. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

9.3 Maes Criced.
Adroddodd y Cynghorwr Peter Cowell fod rhaid i dîm Criced y Betws fynd â'i wiced i Bantffynnon oherwydd bod y Clwb Pêl Droed wedi cael ei ddewis yn lle'r Clwb Criced. Roedd y Cynghorwr Peter Cowell yn gwrthwynebu hyn oherwydd mae'r Clwb Criced wedi defnyddio'r maes dros y blynyddoedd diwethaf. PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Adran Y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin is ofyn am esboniad pam mae'r tîm Pêl Droed wedi cael ei ddewis yn lle Clwb Criced y Betws.

9.4 Parc Betws.
Roedd y Cynghorwr Arnallt James wedi adrodd fod y grisiau sy'n arwain at ac o Barc Betws trwy Heol Pentwyn wedi'i orchuddio gyda dail unwaith eto.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Adran y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn os gall y grisiau cael eu clirio.